

Polisi Gorfodi a Chosbau Cyfoeth Naturiol Cymru

Atodiad 2: Ymgymeriadau Gorfodi

Pryd y byddwn yn derbyn cynnig

Byddwn yn fwy tebygol o dderbyn cynnigion pan gânt eu cynnig yn gynnar a phan fyddant yn arddangos cysylltiad agos â blaenoriaethau ein Datganiadau Ardal (YCHWANEGWCH DDOLEN) ac yn cyd-fynd ag egwyddorion rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Dylid cyflwyno ceisiadau ar gyfer ymgymeriad gorfodi yn ysgrifenedig gan ddefnyddio ffurflen Cynnig Ymgymeriad Gorfodi.

Yn gyffredinol, byddwn ond yn ystyried derbyn cynnig ymgymeriad gorfodi yn y sefyllfaoedd canlynol:

- rydym o'r farn bod achos o fynd yn groes i ddeddfwriaeth berthnasol wedi digwydd
- rydym o'r farn mai ymgymeriad gorfodi yw'r canlyniad rheoleiddiol cywir o ystyried:
 - natur ac effaith y drosedd
 - difrifoldeb y materion dan sylw i'r amgylchedd a'r gymuned
- mae'r cynnig y tu hwnt i'r hyn y byddai angen i'r cwmni ei wneud i gydymffurfio
- mae'r cynigiwr yn
 - rhoi ymrwymiad cadarnhaol i roi'r gorau i'r ymddygiad troseddol neu'r achos honedig o fynd yn groes i ofynion
 - gwneud yn iawn am ganlyniadau'r ymddygiad, gan ddangos bod unrhyw waith adfer angenrheidiol wedi dechrau ar y cyfle cyntaf a'i fod yn rhyngweithio ag unrhyw drydydd parti y cafodd y drosedd effaith arno
 - ymroi i beidio ag ailddechrau'r ymddygiad troseddol

Ni fyddwn fel arfer yn derbyn cynnig yn y sefyllfaoedd canlynol:

- pan fo'r drosedd wedi'i dosbarthu'n ddigwyddiad Uchel neu drosedd Difrifol/Sylweddol fel yr amlinellir yn ein Canllawiau ar Gategorïau Digwyddiadau (ychwanegu dolen?)

- pan oedd y drosedd yn fwriadol neu'n deillio o esgeulustod mewn achosion pan geir bwriad neu achosion pan geir yr effaith amgylcheddol fwyaf difrifol (ond nid ydym yn ei ddiystyru gan y defnyddir disgresiwn bob amser)
- pan ydym eisoes wedi penderfynu bod erlyn yn briodol er budd y cyhoedd
- pan ydym wedi dechrau achos cyfreithiol neu wedi cyhoeddi hysbysiad bwriad ar gyfer cosb ariannol amrywiadwy
- os yw'r cynnig yn cynnwys cymal sy'n gwadu atebolrwydd neu'n gosod amddiffyniadau ar gyfer achos posibl o fynd yn groes i'r ymgymeriad gorfodi

Sut y byddwn yn sicrhau cysondeb wrth asesu cynigion

Byddwn yn sicrhau'r canlynol:

- bod y cynnig yn cyfrannu at gostau rhesymol yr ydym wedi mynd iddynt er mwyn asesu'r cynnig ac ar gyfer gweithgareddau monitro dilynol. Mae hyn yn unol â'r egwyddor 'y llygrwr sy'n talu'
- nad yw unrhyw daliad a wneir i brosiect y mae CNC neu awdurdod lleol ynghlwm wrtho yn cyfrannu at ariannu ei weithgarwch craidd
- bod y cynnig i dalu trydydd parti yn anghyfyngedig ac nad yw'r cynigiwr yn buddio o wneud hynny
- bod y cynnig i dalu trydydd parti yn gwarchod ac yn gwella adnoddau naturiol Cymru ac yn ymwneud ag amcanion y ddeddfwriaeth yr aed yn groes iddi
- pan fo'r cynnig yn ymwneud â digwyddiad sydd wedi achosi effaith amgylcheddol, dylid sicrhau ei fod yn gwneud y canlynol:
 - unioni'r niwed amgylcheddol y mae'r drosedd wedi'i achosi
 - cyflawni budd cyfwerth i'r amgylchedd, ac iawndal yn ychwanegol pan na ellir adfer y niwed yn uniongyrchol
 - cynnwys cyfraniad ariannol at achos/elusen amgylcheddol leol neu gysylltiedig (hyd yn oed pan nad yw'r achos o fynd yn groes i ofynion yn cael effaith uniongyrchol ar yr amgylchedd, er enghraifft achosion o fynd yn groes i drefniadau cyfrifoldeb cynhyrchwr gwastraff pecynnu)
- y rhoddir sylw gofalus i gynigion sy'n cynnig cyfrannu at brosiect i wella statws ecolegol cyrff dŵr, y byddai'n anfforddiadwy heb y cyfraniad hwn
- os gwneir cynnig i dalu mewn rhandaliadau, bod y cynigiwr yn cyflwyno tystiolaeth o'i anallu i dalu'r swm yn ei gyfanrwydd (fel cyfrifon ardystiedig)

Engbreiffiau o gamau gweithredu y gellid eu cynnwys yn eich cynnig:

- hyfforddiant staff

- ymgymryd â gwaith i atal ailddigwyddiad (gan gynnwys cynnal astudiaethau llygredd a rhaglenni lleihau llygredd)
- cyflwyno rhaglen i wella'ch cydymffurfiaeth gyffredinol â'r ddeddfwriaeth

Byddem yn dymuno gweld yr elfennau canlynol yn cael eu cynnwys mewn rhaglen cydymffurfio fewnol:

- manylion am y mecanweithiau monitro ac adrodd y bydd yr unigolyn yn eu mabwysiadu
- ymroddiad a chyfranogiad y bwrdd ac uwch-reolwyr, y gellir eu dangos, i'r rhaglen yn ei chyfanrwydd
- pennu cyfrifoldeb dros y rhaglen cydymffurfio i uwch-reolwr a enwir sy'n rheoli'r unigolyn
- gwaith datblygu polisi cydymffurfio eglur a'i ledaenu ym mhob rhan o'r sefydliad
- gwaith nodi materion sy'n ymwneud â chydymffurfiaeth a gweithdrefnau gweithdrefnol ar gyfer cydymffurfio
- gwaith datblygu a chyflwyno rhaglen hyfforddi ar gydymffurfiaeth i grwpiau personél allweddol o fewn y sefydliad
- gwaith sefydlu mecanweithiau gwirio a monitro gweithdrefnol parhaol, fel enwebu swyddog cydymffurfiaeth a chyflwyno gweithdrefnau i atal achosion o fynd yn groes i ofynion yn y dyfodol ac i sicrhau nad yw achosion posibl o fynd yn groes i ofynion yn cael eu hatal yn unig ond eu bod hefyd yn cael eu hadrodd i'r uwch-reolwyr
- ymroddiad i adael i'r rhaglen cydymffurfio fod yn destun archwiliad annibynnol yn rheolaidd (yn flynyddol fel arfer) am gyfnod penodedig (tair blynedd fel arfer)
- gofyniad i adrodd i ni ar adeg benodedig ar y camau a gymerwyd i weithredu'r rhaglen cydymffurfio

Gallai'r ymgymeriad gorfodi gynnwys y canlynol hefyd:

Enw uwch-reolwr sy'n gyfrifol am fonitro gwaith ac am gydymffurfio â gofynion yr ymgymeriad ac enw swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru y mae'n rhaid i'r swyddog cyswllt adrodd iddo.

Yn gyffredinol, bydd yr unigolyn sy'n rhoi'r ymgymeriad yn gyfrifol am wneud y canlynol:

- monitro sut mae'r ymgymeriad yn cael ei weithredu
- adrodd ar hyn i swyddog Cyfoeth Naturiol Cymru yn y modd penodedig

Rhaid pennu'r ffordd y bydd yr unigolyn yn cynnig gwneud hyn yng nghynnig yr ymgymeriad gorfodi, a rhaid i ni fod yn fodlon bod y ffordd honno'n ddigonol. Wrth ddatrys unrhyw fater, byddwn am ddod o hyd i ffyrdd o unioni'r drosedd.

Pan gaiff y cynnig ei dderbyn

Pan gaiff eich cynnig ei dderbyn, bydd yn dod yn gytundeb ysgrifenedig sy'n rhwymol yn gyfreithiol rhyngoch chi a Cyfoeth Naturiol Cymru.

Os bydd cynigiwr yn methu â chydymffurfio, naill ai'n llwyr neu'n rhannol, rydym yn debygol o wneud un o'r canlynol:

- Cyflwyno cosb ariannol amrywiadwy, hysbysiad cydymffurfio neu hysbysiad adfer
- Erlyn y drosedd wreiddiol
- Amrywio neu ymestyn yr amser ar gyfer cydymffurfio ag ymgymeriad gorfodi

Amrywio neu ymestyn ymgymeriad gorfodi

Gellir amrywio neu ymestyn ymgymeriad gorfodi, neu gellir ymestyn y cyfnod y mae'n rhaid cwblhau'r cam(au) gweithredu o'i fewn, os yw'r ddau barti'n cytuno'n ysgrifenedig.

Byddwn ond yn ystyried cais i amrywio neu ymestyn eich ymgymeriad gorfodi os ydym yn ei dderbyn cyn y dyddiad(au) cwblhau gwreiddiol a'ch bod yn gallu dangos eich bod wedi cymryd camau rhesymol i gydymffurfio.

Cyflawni ymgymeriad gorfodi

Pan ydych o'r farn eich bod wedi cydymffurfio'n llwyr â'r ymgymeriad gorfodi, gallwch wneud cais am dystysgrif cwblhau unrhyw bryd.

Rhaid i chi gynnwys y canlynol:

- gwybodaeth ddigonol i'n helpu i benderfynu p'un a gydymffurfiwyd â'r ymgymeriad yn llwyr ynteu beidio, gyda thystiolaeth sy'n dangos bod pob trydydd parti y cafwyd effaith arno wedi derbyn unrhyw arian sy'n ddyledus iddo fel rhan o'ch cynnig

Pan fyddwn wedi asesu'ch cynnig, byddwn yn penderfynu p'un a ddylid rhoi tystysgrif cwblhau neu beidio, o fewn 14 diwrnod calendr o dderbyn eich cais, a hynny drwy wneud un o'r canlynol:

- rhoi tystysgrif cwblhau i chi
- cyflwyno hysbysiad gwrthod i chi, sy'n amlinellu'r rhesymau dros ein penderfyniad

Gallwn hefyd ddirymu tystysgrif cwblhau os ydym o'r farn y cafwyd ei rhoi ar sail gwybodaeth anghywir, anghyflawn neu gamarweiniol. Ystyrir wedyn eich bod wedi methu â chydymffurfio â'r ymgymeriad gorfodi.

Ymgymeriadau trydydd parti

Mae ymgymeriad trydydd parti yn debyg i ymgymeriad gorfodi, ond ni ellir ei gynnig oni bai fod troseddwr eisoes wedi derbyn hysbysiad o fwriad i gyflwyno un o'r canlynol:

- cosb ariannol amrywiadwy
- hysbysiad cydymffurfio
- hysbysiad adfer

Gellir ond defnyddio ymgymeriad trydydd parti i wneud cynnig i ddigolledu rhywun y cafodd y drosedd effaith arno.